



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cadw ffermwyr i ffermio: Ymateb ymgynghoriad



# Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad; *Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr i ffermio*. Yr ymgynghoriad hwn oedd cam diweddarar broses i ddatblygu ein cymorth i amaethyddiaeth i Gymru yn y dyfodol, gan adeiladu ar y fframwaith a ddatblygwyd gan y Cyn-weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, i bawb a ddaeth i'n sioeau teithiol ac i bawb a ddaeth i drafod â ni mewn digwyddiadau neu ymweliadau fferm.

Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi gallu cynnwys cymaint o ffermwyr yn y gwaith o ddylunio polisi cymorth amaethyddol. Trwy wrando'n ddi-dor ar ffermwyr a phartneriaid eraill, rydym wedi esblygu'n cynigion yn sylweddol ers i ni gyhoeddi *Brexit a'n Tir* yn 2018. Rydym yn disgwyl gwneud rhagor o newidiadau, diolch i'ch cyfraniad gwerthfawr chi i'r ymgynghoriad hwn.

Ein huchelgais yw gweld diwydiant ffermio byrlymus a llewyrchus, a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy sydd o hyd wrth wraidd ein cynigion. Fel rhan o hynny, rhaid cofio mai'r argyfwng natur a hinsawdd yw'r risg pennaf i'n gallu i gynhyrchu bwyd dros y tymor hir, a'n hecosystemau naturiol yw'r amddiffyniad gorau sydd gennym wrth addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effeithiau.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn a diogelu eich gallu yn y dyfodol i gynhyrchu bwyd, rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS/y Cynllun) adlewyrchu a gwireddu egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a sefydlwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Nid yw un amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn drech na'r lleill a rhaid eu hystyried gyda'i gilydd.

Pedwar amcan SLM yw:

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo;
- Cynnal a gwella cydnerthed ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu darparu;
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Er mwyn i Gymru arwain y byd mewn ffermio cynaliadwy, ac i wireddu amcanion SLM, rydym am weithio ar y cyd â ffermwyr Cymru a phartneriaid eraill. Rydym yn ymwybodol bod llawer o bryderu wedi bod am ein cynigion diweddaraf. Mae eich lles chi yn hanfodol ac maen hollbwysig ein bod deall effaith y cynigion ar y diwydiant a'n cymunedau ehangach. Byddwn yn cyfleu manylion y Cynllun yn glir cyn eu cyflwyno.

Rydym wedi symud i'r cam nesaf, sef gwrando ar eich barn ac ymateb iddi, hynny drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, i ddatblygu Cynllun sy'n cynnal diwydiant amaeth cydnerth. Nid yw'r ddogfen hon felly'n cynnwys penderfyniadau ar ddyluniad y cynllun.

## Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac adborth arall

Cafwyd llawer iawn o ymatebion i'r ymgynghoriad gan ffermwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, gyda chyfanswm o 12,108 o ymatebion yn dod i law. Roedd yr ymatebion yn cynnwys ymatebion i'r arolwg ar-lein, ymgyrchoedd sefydliadau a llythyrau neu e-byst wedi'u hanfon yn uniongyrchol at Lywodraeth Cymru. Ffermwyr oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r ymatebion, naill ai fel rhan o ymgyrch neu fel ymatebion unigolion i'r arolwg ar-lein.

Cynhaliwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion gan Miller Research (UK) Ltd. Mae eu hadroddiad [www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-ymgyngori](http://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-ymgyngori). yn crynhoi'r ymatebwyr ac yn dadansoddi'n fanwl yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar sail meintiol ac ansoddol. Mae'r adroddiad hefyd yn trafod chwe thema allweddol a gododd wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o sioeau teithiol am yr SFS yn gynharach eleni. Mae'r adborth a gafwyd yn y digwyddiadau hyn yn gyson â'r themâu a nodwyd yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bu'r adborth hwn yn werthfawr o ran rhoi blas cynnar ac uniongyrchol i ni o'r problemau yr oedd ffermwyr wedi meddwl amdanynt wrth ystyried y cynigion.

Mae Atodiad 1 o'r ddogfen hon yn rhestru cwestiynau, ynghyd â sylw byr ar ein bwriadau a'r camau nesaf.

Fel a ddisgrifir isod, rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar gam nesaf dyluniad y Cynllun i fynd i'r afael â'r heriau penodol y tynnodd yr ymgynghoriad ein sylw atynt ond gan barhau i wireddu'r cyfleoedd yr ydym am eu cyflawni gyda'n gilydd. Mae'r ymateb hwn felly'n canolbwyntio ar y camau yr ydym yn eu cymryd i ymateb i'r adborth a ddaeth i law, hynny ar y cyd â rhanddeiliaid. Nid yw'n rhagweld y canlyniad cyn i'r trafodaethau hyn ddod i ben.

## Gwneud cynnydd drwy bartneriaeth

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi datgan na chaiff y Cynllun ei gyhoeddi tan y bydd yn barod. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda ffermwyr, cynrychiolwyr y diwydiant a'r prif rhanddeiliaid eraill i ystyried dyluniad y cynllun ymhellach a sut i'w roi ar waith. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y Cynllun a'i Weithredoedd yn briodol, yn hygyrch ac yn darparu'r lefel briodol o gefnogaeth. Mae strwythur yr ymgysylltiad hwn wedi'i nodi isod.

**Ford gron gweinidogol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:** Cadeirydd y Ford Gron Gweinidogol yw Ysgrifennydd y Cabinet ac mae 18 o uwch-randdeiliaid sy'n cynrychioli ffermwyr a'r sectorau bwyd, natur, coedwigaeth a milfeddygol, yn ogystal â'r cadwyni cyflenwi ehangach, yn aelodau ohoni. Mae'r Ford Gron yn rhoi cymorth uniongyrchol i Ysgrifennydd y Cabinet, a fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau terfynol ar ôl cloriannu'r holl dystiolaeth ac ystyriaethau eraill.

Cynhaliwyd y ddau gyfarfod cyntaf ym mis Mehefin a bydd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i ddatrys y prif bryderon a godir ynghylch dyluniad y cynllun a'i gynnal. Mae'r Ford Gron eisoes wedi cyfrannu at strwythur yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Pwrpas y Ford Gron yw adolygu ac ystyried y blaenoriaethau ar gyfer Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol yr SFS, ynghyd â Rheolau'r Cynllun (gan gynnwys y gofynion 10%), y meini prawf i fod yn gymwys a dulliau talu. Bydd y Ford Gron yn adolygu'r agweddau hyn yng nghyd-destun yr SLM a'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.



Bydd y Ford Gron yn ystyried asesiad economaidd newydd, yn seiliedig ar gynllun 'mewn egwyddor', ac yn rhoi adborth arno, cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol. Bydd y penderfyniad terfynol hwn yn cael ei wneud yng nghyd-destun amcanion SLM a bydd yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys barn y Ford Gron (a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y bydd wedi'u hystyried, er enghraifft trwy'r Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon, a nodir isod).

Bydd arbenigedd aelodau'r Ford Gron yn cyfrannu hefyd at weithredu ar y cyd i helpu'r diwydiant i newid o'r Cynllun Taliad Sylfaenol i'r SFS terfynol.

Nid yw'r Ford Gron yn gweithredu ar ei phen ei hun. Mae nifer o is-grwpiau gan gynnwys Gweithgor Swyddogion a'r Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon, yn ei helpu.

**Gweithgor Swyddogion:** Mae aelodaeth y grŵp hwn yn ehangach na'r Ford Gron Gweinidogol. Mae'n grŵp amrywiol o sefydliadau sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd, yr amgylchedd a'r buddion eraill a ddaw trwy ffermio cynaliadwy.

Mae'r Grŵp wedi cael y cyfrifoldeb i adolygu agweddau ar ddyluniad y Cynllun ac i adrodd yn ôl i'r Ford Gron, i nodi meysydd lle ceir cytundeb, meysydd sydd angen rhagor o waith a phwyntiau mae angen rhoi mwy o sylw iddynt i'w datrys. Bydd y Grŵp yn allweddol i roi llawer o'r arbenigedd technegol a gweithredol o ddydd i ddydd i sicrhau bod dyluniad y Cynllun yn briodol ac yn gyflawnadwy.

Mae'r Grŵp eisoes yn gweithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen waith sy'n sicrhau ein bod yn gweithio'n gyflym ac yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf i'w datrys dros fisoedd yr haf.

**Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon:** Rydym wedi sefydlu Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon i ystyried y dystiolaeth all fod yn sail i weithredoedd amgen ar gyfer dal carbon o fewn Haen Gyffredinol y Cynllun.

Mae'r Panel eisoes wedi cyfarfod ym mis Mehefin a bydd yn gweithio drwy'r Haf i wneud y gwaith hwn. Mae wrthi'n nodi Gweithredoedd posibl a maint y cyfle i gynnal pob Gweithred yng Nghymru. Bydd yn edrych ar y dystiolaeth o blaid cynnwys Gweithred yn y Cynllun, a fydd yn cynnwys dadansoddiad gydag arbenigwyr pwnc perthnasol.

Bydd y panel yn rhannu ei ganfyddiadau â'r Ford Gron Gweinidogol er mwyn ystyried y goblygiadau i ddyluniad y Cynllun. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol.

Rhestrir aelodau'r Ford Gron a'r is-grwpiau yn Atodiad 2.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb cysylltiedig am eu ymdrech a'u hymrwymiad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cydweithrediad hwn a'i effaith ar gydnerthedd ein diwydiant ffermio a lles ein ffermwyr.

## Y Cam Paratoi

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 14 Mai 2024 ei fwriad i gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Cyfnod Pontio yn 2026 yn lle 2025. Bydd hynny'n sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle a'r amser angenrheidiol i drafod datblygu'r Cynllun terfynol yn llawn.

Felly, rydym wrthi'n datblygu Cam Paratoi o weithgarwch i gynnal y gefnogaeth ariannol, i barhau i roi help ac arweiniad ar fanteision ffermio cynaliadwy ac i'n helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun o 2026. Bydd y Cam Paratoi'n cynnwys:

- Cadw'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) dros 2025.
- Cadarnhau data a fydd, gydag adborth ffermwyr, yn rhoi darlun cywir o'r cynefinoedd a'r gorchudd coed ar bob fferm.
- Gwaith gyda Cyswllt Ffermio i hyrwyddo manteision trosglwyddo gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar weithgarwch ar ffermydd sy'n eu gwneud yn fwy effeithlon ac ategu'r canlyniadau a'r gweithredoedd sy'n cael eu cynnig a'u datblygu ar gyfer yr SFS.

- Estyn rhai o'n cynlluniau buddsoddi gwledig, fel y cynlluniau grantiau bach, i barhau i gefnogi newidiadau i'r seilwaith.
- Hyrwyddo'r manteision a'r cyfleoedd y mae gorchudd coed a choetir ar ffermydd yn eu cynnig, drwy Cyswllt Ffermio a grantiau ategol.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i gefnogaeth ragweithiol ar gyfer ffermio organig a rheoli cynefinoedd, yn ogystal â gweithio ar raddfa tirwedd, gan adeiladu ar brofiadau cynlluniau blaenorol. Bydd manylion y BPS, gan gynnwys uchafswm cyllideb 2025, a chynlluniau eraill fydd ar gael cyn 2026, yn cael eu cyhoeddi ar wahân i'r ddogfen ymgynghori hon.

## Camau Nesaf

Nid oes penderfyniadau manwl ar ddyuniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u gwneud eto. Rydym yn deall y pryderon a godwyd yn y broses ymgynghori, ac mae'n amlwg y bydd angen newid y Cynllun cyn ei fabwysiadu.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol a'i his-grwpiau a ddisgrifir uchod i ddatrys yr heriau sy'n weddill cyn llunio'r Cynllun terfynol.

Rydym yn disgwyl diweddariadau achlysurol gan y Ford Gron drwy'r flwyddyn.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am y Cam Paratoi ar gyfer 2025 maes o law.

Rydym am i'r SFS ddechrau yn 2026, ond cyn hynny, bydd cyfnod o gynghori a chefnogi i'ch helpu i ddeall gofynion y Cynllun a sut y byddan nhw'n gwneud eich fferm yn fwy cydnerth.

## Atodiad 1: Cwestiynau ymgynghori Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr i ffermio

Mae'r tabl canlynol yn ymdrin â phob un o gwestiynau'r ymgynghoriad *Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr yn ffermio*, gan gynnwys disgrifiad byr o'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd.

Er hwylustod rydym wedi cynnwys rhif y dudalen lle mae'r cwestiwn d'r dadansoddiad penodol yn *Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr i ffermio – Crynodeb o'r ymatebion a baratowyd gan Miller Research* sydd wedi ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

	Cwestiwn	Dadansoddiad o'r ymgynghoriad	Ein camau nesaf
1	Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon?	Gweler tudalen 22	Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cynllun fydd ar gael i bob ffermwr a phob math o fferm, er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer y cyfleoedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sydd o'n blaenau.  Mae hynny'n cynnwys datrys problem cael hawliau hanesyddol i gefnogi ffermwyr ifanc a newydd ar y Cynllun.  Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i lunio manylion y Cynllun.
2	Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o'r fferm fel cynefin:  a) Beth yw eich barn am y gofynion hyn?  b) Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i'w cynnal?	Gweler tudalen 28	Dyluniwyd y cynigion hyn i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ac i liniaru eu heffeithiau ar ein gallu i gynhyrchu bwyd yn y dyfodol.  Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol, ac yn benodol y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon i edrych eto ar y cynigion hyn. Ni wneir unrhyw benderfyniadau, er enghraifft ar reolau 10% y cynllun, nes y byddwn wedi gwneud hynny.

	<b>Cwestiwn</b>	<b>Dadansoddiad o'r ymgynghoriad</b>	<b>Ein camau nesaf</b>
3	<p>Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a bioamrywiaeth, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol:</p> <p>a) O fantais i fusnes eich fferm?</p> <p>b) Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdany'n nhw?</p>	Gweler tudalen 41	<p>Ein huchelgais yw dylunio cynllun sy'n helpu'ch busnes i fod yn cydnerth a llewyrchus trwy set o weithredoedd ymarferol.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol a'r Grŵp Swyddogion i lunio manylion y Cynllun, gan ddatblygu Gweithredoedd sy'n cefnogi'r canlyniad yr ydym i gyd yn chwilio amdano h.y. diwydiant amaethyddol cynaliadwy a chydnerth.</p>
4	<p>Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?</p>	Gweler tudalen 52	<p>Ein bwriad yw casglu data dim ond lle bo angen a chynnig cynllun sy'n seiliedig yn bennaf ar hunanasesiadau a hunan-adroddiadau.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i lunio manylion y cynllun ac ystyried effaith gyffredinol gofynion y Cynllun cyn gwneud penderfyniad terfynol.</p> <p>Byddwn yn parhau i ddefnyddio Gweithgor Defnyddwyr Ar-lein RPW i gyfrannu at ein trefniadau gweinyddol a phrofi eu heffeithiolrwydd, a sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn hawdd eu defnyddio.</p>
5	<p>Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol?</p>	Gweler tudalen 58	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bontio teg rhwng y Cynllun Taliad Sylfaenol a Haen Gyffredinol yr SFS.</p> <p>Ein bwriad yw edrych ar y taliad Sefydlogrwydd pan fyddwn yn ystyried y dull talu gyda'r Ford Gron Gweinidogol.</p>

	<b>Cwestiwn</b>	<b>Dadansoddiad o'r ymgynghoriad</b>	<b>Ein camau nesaf</b>
6	Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon?	Gweler tudalen 65	<p>Cynigiwyd y maen prawf hwn i wneud yn siŵr ei bod yn cefnogi ffermwyr actif. Bwriad y rheol 10 mis yw rhoi rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn gallu cydnabod trefniadau deiliadaeth tir, gan gefnogi ffermwyr sy'n ffermio'r tir am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i sicrhau bod y meini prawf o fewn cyrraedd pawb ac yn briodol ar gyfer gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi ffermwyr actif.</p>
7	Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?	Gweler tudalen 70	<p>Yn ein barn ni mae'n hanfodol bod gennym system unffurf i asesu carbon ar draws y diwydiant amaeth i fesur perfformiad cyfredol, gan nodi meysydd y gellir eu gwella ar y fferm a chofnodi canlyniad y gwelliannau hynny dros amser.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol a'r Grŵp Swyddogion i adolygu a datblygu safbwynt a ffeirir.</p>
8	Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn?	Gweler tudalen 76	<p>Rydym yn ymwybodol o'r adborth ynghylch stres, pryder a'ch lles meddyliol, yn enwedig o ran cydymffurfio â'r Cynllun ac archwiliadau ar y fferm.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i ddatblygu ymateb cymesur i fesurau rheoli'r cynllun, gan gefnogi ymateb blaengar pan nad yw effaith tor-reol ar y fferm neu oddi arni'n fawr, neu lle mae'r tramgwydd yn gamgymeriad go iawn. Mae disgwyl cosbau ariannol o hyd lle ceir tramgwyddau arwyddocaol neu fwriadol, gan gynnwys tramgwyddau i'r llinell sylfaen reoleiddio.</p>



	<b>Cwestiwn</b>	<b>Dadansoddiad o'r ymgynghoriad</b>	<b>Ein camau nesaf</b>
9	Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn?	Gweler tudalen 80	<p>Sefydlwyd y Panel Apeliadau Annibynnol yn 2002 oherwydd nifer yr apeliadau yn erbyn ein dehongliad o Reoliadau'r CE. Mae angen proses Apelio deg a thryloyw sy'n adlewyrchu'r gweithredu mwy cymesur yr ydym yn bwriadu ei ddilyn, er enghraifft o ran torri rheolau'r cynllun.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol a'r Grŵp Swyddogion i greu model cosbau ac apelio priodol.</p>
10	Hoffem glywed eich barn am effeithiau'r cynigion: a) taliad sylfaenol cyffredinol yr SFS; b) taliad sefydlogrwydd yr SFS.	Gweler tudalen 85	<p>Mae'r dull a gynigir ar gyfer talu Taliad Sylfaenol Cyffredinol yr SFS wedi'i greu i'ch cefnogi ar sail y fferm gyfan a gwneud busnesau fferm yn fwy cydnerth.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i lunio manylion y cynllun gan gynnwys y dull talu a sicrhau bod y taliad yn talu mwy na'r incwm a gollir a'r costau a ysgwyddir, ac yn cynnwys elfen i adlewyrchu gwerth cymdeithasol y gweithredoedd positif a gynhelir ar ffermydd yng Nghymru o ganlyniad i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.</p>
11	Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?	Gweler tudalen 90	Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau a gynlluniwyd ar gyfer pob ffermwr a'r cymorth sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rheini sydd yn yr SFS.

	Cwestiwn	Dadansoddiad o'r ymgynghoriad	Ein camau nesaf
12	Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?	Gweler tudalen 94	Ein bwriad yw gweithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol a'r Grŵp Swyddogion i gyflwyno ystod o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn, yn ogystal â gweithredoedd sy'n adlewyrchu amcanion blaenoriaethau'r llywodraeth.
13	Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Mae hyn yn cynnwys: a) Cyfradd gostwng taliadau BPS; b) Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd; c) Trothwyon capio; d) Cyfyngu ar yr hawl i weerthu a lesio hawliau.	Gweler tudalen 97	Ein bwriad yw cefnogi ffermwyr actif sy'n symud o'r BPS i'r SFS ond gan amddiffyn pawb sy'n dewis aros yn y BPS rhag dibyn ariannol.  Nid ydym am wneud newidiadau i BPS 2025 a chaiff y gyllideb sydd ar gael ar ei gyfer ei chyhoeddi maes o law. Byddwn yn ystyried gwneud newidiadau i'r BPS ar gyfer 2026 pan gaiff yr SFS a'r Cyfnod Pontio eu cyflwyno.
14	Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i gefnogi'r BPS ac i gyflwyno cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.	Gweler tudalen 113	Mae angen is-ddeddfwriaeth i sefydlu: <ul style="list-style-type: none"><li>• Y fframwaith rheoli ar gyfer pob cynllun yn y dyfodol (megis yr SFS) i helpu pobl i ddeall a chynnal y cynlluniau hyn, fel sy'n ofynnol yn adran 10 ac adran 12 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.</li><li>• Newidiadau i'r BPS, a'r mesurau rheoli cysylltiedig, yn ystod y cyfnod pontio, i hawlwyr y BPS sy'n dewis peidio ag ymuno â'r SFS yn ystod y Cyfnod Pontio.</li></ul> Byddwn yn sicrhau bod y cynigion hyn yn cael eu disgrifio'n glir cyn eu cyflwyno.

	<b>Cwestiwn</b>	<b>Dadansoddiad o'r ymgynghoriad</b>	<b>Ein camau nesaf</b>
15	Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen.	Gweler tudalen 115	Roedd yr asesiad economaidd a gyhoeddwyd gennym yn adroddiad annibynnol, wedi'i gomisiynu gennym ac yn seiliedig ar yr Amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. Nid oedd yn asesiad o'r fersiwn o'r Cynllun oedd yn destun yr ymgynghoriad. Byddwn yn cynnal dadansoddiad economaidd o'r Cynllun diwygiedig cyn i Weinidogion Cymru wneud unrhyw benderfyniadau terfynol.  Byddwn yn trafod â'r Ford Gron Gweinidogol am y dadansoddiad a'r asesiadau effaith newydd, cyn i Weinidogion wneud penderfyniad.
16	Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.	Gweler tudalen 118	Bydd angen gwybod dyluniad terfynol y Cynllun cyn penderfynu pa wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.  Byddwn yn gweithio gyda'r Ford Gron Gweinidogol i ddatblygu cynigion yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar ôl datblygu'r Cynllun.
17	Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol yr SFS ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hybu unrhyw effeithiau cadarnhaol?</li> <li>• A ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?</li> </ul>	Gweler tudalen 123	Ein huchelgais yw cefnogi cymunedau gwledig a'r iaith Gymraeg drwy ddylunio cynllun sy'n cefnogi ac yn cadw ffermwyr i ffermio yng Nghymru.

	Cwestiwn	Dadansoddiad o'r ymgynghoriad	Ein camau nesaf
18	<p>Yn eich barn chi, a oes modd llunio'r SFS neu ei newid er mwyn:</p> <p>a) cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu</p> <p>b) lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?</p>	Gweler tudalen 126	Byddwn yn adolygu'r cynigion diwygiedig ar gyfer y cynllun i sicrhau eu bod yn darparu o leiaf yr un cyfleoedd, os nad mwy ohonynt i ddefnyddio'r Gymraeg.
19	A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori hon?	Gweler tudalen 128	<p>Byddwn yn ystyried yr holl adborth i'r cwestiynau ymgynghori a'r sesiynau trafod â rhanddeiliaid ffermio wrth ddatblygu'r Cynllun, gyda'r Ford Gron Gweinidogol a'r Grŵp Swyddogion.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys y meysydd yr amlygwyd eu bod yn brin o ffocws megis sut i ymdrin â thir comin a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod negeseuon am y cynllun yn glir ac yn gyson i'w wneud yn fwy hygyrch ac yn haws ei ddeall. Byddwn yn edrych ar offer rhannu gwybodaeth ychwanegol er mwyn gallu ymgysylltu â mwy o bobl.</p>

## Atodiad 2: Aelodau'r grwpiau rhanddeiliaid

Partner	Y Ford Gron Gweinidogol	Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon	Gweithgor Swyddogion
Afonydd Cymru			✓
Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth	✓		✓
Coed Cadw	✓*		✓
Coed Cymru			✓
Comisiynydd y Gymraeg			✓
Confor	✓	✓	✓
Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol			✓
Cymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar			✓
Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol			✓
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru			✓
Cymdeithas Milfeddygon Prydain (Cymru)	✓		
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain	✓		
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	✓	✓	✓
Cymdeithas y Ffermwyr Tenant	✓		✓
Cymdeithas y Pridd	✓*	✓*	✓



Partner	Y Ford Gron Gweinidogol	Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon	Gweithgor Swyddogion
Cynrychiolydd ffermwyr annibynnol	✓	✓	
Cynrychiolydd milfeddygon annibynnol			✓
Cyswllt Amgylchedd Cymru			✓
DPJ Foundation	✓		
Dŵr Cymru			✓
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru	✓		✓
Game & Wildlife Conservation Trust			✓
Grwp Bywyd Gwylt a Chynghori Ffermydd Cymru			✓
Grŵp Cynghrair Garddwriaeth Cymru			✓
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru	✓		✓
Hybu Cig Cymru	✓	✓	✓
Hybu Cig Oen a Chig Eidion Cymru	✓		✓
Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar	✓	✓	✓
Sustainable Food Trust			✓
Tirweddau Cymru			✓
Undeb Amaethwyr Cymru	✓	✓	✓

Partner	Y Ford Gron Gweinidogol	Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon	Gweithgor Swyddogion
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	✓	✓	✓
World Wild Fund for Nature			✓
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	✓*		✓
Ymddiriedolaeth Genedlaethol			✓

\* Hefyd yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).